# Cyflwyno tystiolaeth lafar yn y llys am dramgwyddo ffitiadau dŵr

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chyflwyno tystiolaeth am dramgwyddo ffitiadau dŵr yn y llys. Gallai hyn fod fel tyst neu dyst arbenigol.

Mae’n golygu defnyddio'r ymddygiad a ddisgwylir gan y llys, gan gynnwys defnyddio'r dulliau cywir o gyfarch pobl. Mae hefyd yn cynnwys siarad yn glir ac egluro manylion technegol mewn ffordd y gall pobl annhechnegol ei deall, a chyflwyno tystiolaeth sy’n gyson â’r manylion ysgrifenedig sy’n ymwneud â’r mater o ddiffyg cydymffurfio.

Mae’r Safon hon ar gyfer arolygwyr cydymffurfio â ffitiadau dŵr sy’n cyflwyno tystiolaeth yn y llys.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau bod y ffordd rydych chi'n edrych ac yn ymddwyn yn y llys yn cydymffurfio â'r hyn y mae'r llys rydych chi'n ymddangos ynddo yn ei ddisgwyl gennych
2. cyflwyno tystiolaeth mewn ffordd glir a dealladwy
3. rhoi tystiolaeth sy'n gyson â chynnwys manylion ysgrifenedig yr achos
4. cyflwyno tystiolaeth wedi'i labelu i'w defnyddio mewn llys barn yn unol â gweithdrefnau'r llys
5. delio â chwestiynau mewn modd gonest a diduedd, gan ddefnyddio iaith gryno ac eglur
6. rhoi gwybodaeth gywir am unrhyw rybuddion a roddwyd i ddiffynyddion tra'r oedd achosion yn cael eu paratoi ar gyfer eu herlyn
7. herio neu ddilysu eitemau a ddefnyddir yn yr amddiffyniad yn unol â gweithdrefnau'r llys
8. ateb cwestiynau penodol gydag esboniadau technegol perthnasol sy'n ddealladwy i bobl annhechnegol
9. gwahaniaethu'n glir rhwng ffaith a barn wrth gyflwyno tystiolaeth lafar, gan fynegi barn dim ond pan ofynnir hynny
10. sicrhau bod pob ymateb o fewn terfynau ei arbenigedd ei hun
11. gwahaniaethu rhwng dull cyflwyno yn unol â rôl benodol tyst neu dyst arbenigol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*